

HYFFORDDIANT HYDREF/GAEAF 2010-11 MEDI 2010 – MAWRTH 2011

Mae **Cyfranogaeth Cymru** yn darparu hyfforddiant i reolwyr a chyflenwyr gwasanaethau cyhoeddus sydd eisiau sicrhau gwell cyswllt â'r cyhoedd wrth ddylunio, datblygu a chyflenwi gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion i bobl Cymru.

Bydd yr hyfforddiant hwn o fudd i unigolion a mudiadau o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Ein nod yw helpu unigolion i feithrin y wybodaeth a'r sgiliau ar gyfer cyfranogaeth gyhoeddus ystyrlon gan gynnwys ymgynghori, cynllunio, gweithio mewn partneriaeth a chynhwysiant cymdeithasol.

Partneriaeth o fudiadau o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yw **Cyfranogaeth Cymru** ac fe'i rheolir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA). Ariennir **Cyfranogaeth Cymru** gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru.



WCVA, Tŷ Baltig
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FH

Rhif cofrestru'r elusen 218093
Cwmni Cyfyngedig dan Warant 425299 / Cofrestrwyd yng Nghymru Mehefin 2005

Am ddisgrifiadau llawn o'r cyrsiau, y nodau a'r amcanion dysgu ymwelwch â'n gwefan www.participationcymru.org.uk neu ffoniwch ni i gael rhagor o wybodaeth

☎ 029 2043 1725

9 & 10 Tachwedd,
8 Rhagfyr 2010
Gwesty'r Ivy Bush
Royal, Caerfyrddin
Y gost: A £375
B £435 C £495



15 Tachwedd 2010
WCVA, Caerdydd
9 Chwefror 2011
Plas Dolerw, y
Drennewydd
Y gost: A £125
B £155 C £185

30 Medi 2010
Canolfan Plant
Integredig,
Merthyr Tudful
7 Hydref 2010
Cartrefi Cymru,
Bangor
Cost: A £125
B £155 C £185

18 Tachwedd 2010
Canolfan Cristnogol
y Wimwydden,
Pen-y-Bont ar Ogwr
19 Ionawr 2011
WCVA, Aberystwyth
Y gost: A £125
B £155 C £185

2 Chwefror 2010
YMCA, Casnewydd
Y gost: A £125
B £155 C £185



16 Chwefror 2011
Canolfan Cristnogol
y Wimwydden,
Pen-y-Bont ar Ogwr
Y gost: A £125
B £155 C £185

NEWYDD! Hyfforddiant achrededig: Ymgysylltu â'r gymuned a dinasyddion

Cynulleidfa darged: Rheolwyr a staff rheng flaen sy'n edrych am hyfforddiant achrededig mewn cysylltu â dinasyddion a'r gymuned.

Bwrïedir y cwrs cynhwysfawr, achrededig tri diwrnod hwn i ddarparu gwell ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ymgysylltu cyfranogol. Bydd y cyfranogwyr yn ennill sgiliau amrywiol ac yn magu hyder mewn ymgysylltu â dinasyddion a'r gymuned. Bydd y diwrnod cyntaf yn canolbwyntio ar baratoi ar gyfer ymgysylltu, y rhesymeg, pwyl i gysylltu â nhw a sicrhau dilysrwydd wrth ymgynghori. Bydd y grŵp yn dechrau edrych ar sgiliau hwyluso. Bydd diwrnod dau yn edrych ar gyfryngau ar gyfer ymgysylltu, yn rhoi trosolwg o brosesau ymgynghori, ac opsiynau newydd gan ddefnyddio technegau cyfranogol. Bydd y cyfranogwyr yn dysgu dulliau amrywiol ac yn cael cyfle i roi rhai o'r dulliau ar waith. Ar ddiwrnod 3, bydd pob cyfranogwr yn dangos dull cyfranogol fel rhan o'i asesiad. Bydd gweddill y dydd yn canolbwyntio ar werthuso'r canlyniadau a defnyddio data o weithgareddau cysylltu. Yn dilyn yr hyfforddiant, bydd gofyn i'r cyfranogwyr gyflwyno darn o waith i'w asesu.

NEWYDD! Hyder mewn digwyddiadau cyhoeddus

Cynulleidfa darged: Ar gyfer unrhyw unigolion neu fudiadau y mae gofyn iddynt gynrychioli eu mudiad mewn cyfarfodydd cyhoeddus gyda dinasyddion a chymunedau.

Mae cynrychioli eich mudiadau mewn digwyddiad cyhoeddus yn gyfrifoldeb sy'n ddychrynlyd i'r bobl fwyaf profiadol. Mae'r cwrs hwn yn canolbwyntio ar sgiliau cyflwyno ac ar ddelio â sefyllfaoedd ac ymddygiad anodd. Bydd y cyfranogwyr yn dysgu sut i baratoi ar gyfer digwyddiad cyhoeddus, sut i roi cyflwyniad effeithiol, gan gyflue'r wybodaeth y mae ar y gynulleidfa eisiau ei gwybod gan ddefnyddio arddulliau cyfathrebu priodol, ac mae'n archwilio'r technegau ar gyfer sut i ddelio â materion a sefyllfaoedd anodd.

Cyflwyniad i hwyluso

Cynulleidfa darged: Y rheini sydd eisiau datblygu'u sgiliau hwyluso i'w galluogi i hwyluso cyfarfodydd a digwyddiadau gyda dinasyddion, cymunedau, cydweithwyr a mudiadau partner.

Bydd y cwrs hwn yn darparu cyflwyniad i hwyluso, gan alluogi'r cyfranogwyr i ddeall rôl hwyluswyr ac i ymarfer sgiliau a thechnegau hwyluso amrywiol. Bydd y cyfranogwyr yn dysgu sut i gynllunio a rhedeg digwyddiadau wedi'u hwyluso yn effeithiol, meithrin sgiliau holi ac archwilio technegau ar gyfer delio â materion ac ymddygiad heriol.

Bydd yn gwrs cyfranogol lle caiff y cyfranogwyr gyfle i archwilio ac ymarfer hwyluso mewn amgylchedd dysgu diogel.

NEWYDD! Hwyluso uwch

Cynulleidfa darged: Mae'r cwrs hwn yn addas i unrhyw un sydd â rhyw gymaint o brofiad o hwyluso cyfarfodydd a digwyddiadau gyda dinasyddion, cymunedau, cydweithwyr a phartneriaethau ac sydd eisiau datblygu'u sgiliau ac ychwanegu dulliau newydd i'w pecyn cymorth.

Bydd y cyfranogwyr yn cael cyfle i ddsygu am wahanol ddulliau o wella hwyluso a'u hymarfer, gan gynnwys: defnyddio graffeg i gofnodi a darlunio digwyddiadau wedi'u hwyluso, defnyddio technegau pleidleisio a raddio, y dull World Café a meithrin consensws. Caiff technegau ar gyfer rheoli gwrthdaro hefyd eu cynnwys.

Ymgysylltu ag unigolion a chymunedau na chlywir eu llais yn aml

Cynulleidfa darged: Ar gyfer unrhyw unigolion neu fudiadau sy'n dymuno cysylltu â'r rheini y maent wedi canfod nas clywir yn aml (neu sy'n 'anodd eu cyrraedd').

Bydd y cwrs hwn yn cynorthwyo gweithwyr i ganfod y rhwystrau amrywiol rhag cymryd rhan ac yn archwilio ac yn rhannu strategaethau gyda gweithwyr proffesiynol eraill er mwyn lleihau a goresgyn y rhwystrau hyn. Bydd y cwrs yn defnyddio dulliau cyfranogol a chynhwysol i ddelio â materion sy'n gysylltiedig ag allgau ac unigolion a chymunedau nas clywir yn aml; bydd y cyfranogwyr yn archwilio'u hymarfer eu hunain ac yn edrych ar sut y gallant weithio'n fwy effeithiol gyda grwpiau nad oes iddynt gynrychiolaeth ddigonol. Bydd y cyfranogwyr yn gweithio'n systematig drwy set o faterion i'w galluogi i ddyfeisio'u strategaeth eu hunain er mwyn cysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd. I gyd-fynd â hyn, cyflwynir esiamplau o arferion da ac astudiaethau achos.

Defnyddio data o ddigwyddiadau cyfranogol ac ymgynghoriadau i'r eithaf

Cynulleidfa darged: Ymarferwyr a hwyluswyr y mae arnynt angen dadansoddi, dehongli a dwyn casgliadau o ddata ansoddiol



30 Mawrth 2011
Cartrefi Cymru,
Bangor
Y gost: A £125
B £155 C £185

11 Ionawr 2011
Cwrs ½ diwrnod:
9.30-12.30
WCVA, Caerdydd

15 Mawrth 2011
½ diwrnod:
9.30-12.30
CAVS, Caerfyrddin
Y gost: A £65
B £80 C £95

4 Tachwedd 2010
YMCA, y Barr

9 Mawrth 2011
Canolfan Adnoddau'r
Cyfryngau,
Llandrindod
Y gost: A £125
B £155 C £185



13 Hydref 2010
NewLink, Caerdydd

3 March
AVOW, Wrecsam
Y gost: A £125
B £155 C £185

Bydd y cwrs ymarferol hwn yn darparu i'r cyfranogwyr y cyfle i ymarfer dadansoddi mathau o ddata cynyddol gymhleth, a gynhyrchir gan ddigwyddiadau gwirioneddol, mewn modd cyfranogol. Bydd y cyfranogwyr yn meithrin sgiliau a hyder mewn dadansoddi data ansoddiol a meintiol fel ei gilydd ac yn deall egwyddorion dwyn casgliadau o ddata o'r fath. Bydd y cyfranogwyr yn ymarfer dwyn pwysigrwydd a dod i gasgliadau o'u dadansoddi, unwaith eto mewn modd cyfranogol. Mae'r cwrs yn adolygu nodweddion grwpiau ffocws a digwyddiadau wedi'u hwyluso gan ddefnyddio technegau cyfranogol megis ffurflenni adborth agored neu ddarnau data hwy megis yr hyn sy'n deillio o gyfweiliadau grŵp neu un wrth un a'r math o ddata y mae'r rhain yn eu cynhyrchu.

Cyllidebu cyfranogol

Cynulleidfa darged: Rheolwyr a staff rheng flaen mewn sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus sydd eisiau cynnwys cymunedau mewn prosiectau cyllidebu cyfranogol.

Bydd y cwrs hwn, a gyflwynir mewn cydweithrediad ag Uned Cyllidebu Cyfranogol (CC) Cymru, yn darparu i'r cyfranogwyr y wybodaeth a'r cyfryngau ymarferol i argymhell ymarferiadau cyllidebu cyfranogol gyda'r gymuned leol/defnyddwyr gwasanaethau, gyda chefnogaeth gan Uned CC Cymru. Gyda phwyslais ar weithdai ac esiamplau bywyd go iawn ac arferion da, mae hwn yn gwrs cyffrous i unrhyw fudiad sydd â diddordeb mewn cynnwys eu cymunedau i wneud penderfyniadau effeithiol am eu blaenoriaethau gwario.

Cymryd nodiadau mewn digwyddiadau cyfranogol ac ymgynghoriadau (hanner diwrnod)

Cynulleidfa darged: Staff gweinyddol a rheng flaen mewn sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus a thrydydd sector y mae gofyn iddynt gymryd nodiadau a chofnodi data mewn digwyddiadau cyfranogol ac mewn ymgynghoriadau.

Gall bod yn gyfrifol am gymryd nodiadau a chofnodi trafodaethau yn ystod digwyddiadau cyfranogol ac ymgynghoriadau fod yn ddychrynlyd. Yn aml caiff llawer o ddata ei gynhyrchu a gall fod yn anodd ei gofnodi'n gywir. Nod y cwrs byr hwn yw archwilio ffyrdd o gofnodi data amrywiol a gynhyrchir mewn digwyddiadau cyfranogol ac ymgynghoriadau yn effeithiol ac yn syml. Bydd y cyfranogwyr yn cael awgrymiadau a thechnegau ymarferol ar gyfer cofnodi data, gan ddefnyddio dulliau priodol ar gyfer data a gynhyrchir mewn digwyddiadau cyfranogol, grwpiau ffocws, ymarferiadau pleidleisio ayb. Caiff y cyfranogwyr gyfle i ymarfer eu sgiliau a rhannu syniadau ac awgrymiadau gyda chyfranogwyr eraill.

E-cyfranogaeth: Deall a defnyddio technoleg rhyngwyd newydd yn effeithiol

Cynulleidfa darged: Mae'r trosolwg yma yn addas i weithwyr proffesiynol sydd eisiau deall sut i ddefnyddio technoleg cyfryngau a rhyngwyd newydd yn fwy effeithiol er mwyn cadw'n gyfoes, canfod gwybodaeth a rhwydweithiau newydd, rheoli gwybodaeth, cyrraedd cynulleidfaoedd newydd, ac ymgysylltu gyda'u cynulleidfaoedd yn well.

Heddiw rydym yn byw mewn byd mae technolegwyr Rhyngwyd yn galw'n byd Gwe 2.0. Mae technoleg Gwe 2.0 yn dechnoleg sydd ar y we ac yn hawdd i'w ddefnyddio neu yn rhaglenni sy'n rhoi defnyddwyr yng nghanol creu cynnwys. Maent yn darparu ffyrdd newydd a chost-effeithiol i greu cynnwys amlgyfrwng moethus, cyrchu cymunedau ac adnoddau arbenigol, cydweithio a rhwydweithio. Mae'r ffaith bod mwy a mwy o bobl nawr yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol, nid yn unig ar gyfer teulu a friniau, ond hefyd fel dull hyrwyddo busnes, yn meddwl bod mudiadau nawr mewn sefyllfa unigryw i greu cynnwys yn fwy effeithiol, ac i ymgysylltu gyda'u cynulleidfaoedd trwy ddefnyddio'r gwasanaethau newydd yma.

Mae'r dydd hyfforddiant ymarferol sydd yma wedi'i darparu gan Wise Kids yn anelu i arddangos ffyrdd gall technoleg helpu gweithwyr proffesiynol yn eu datblygiad proffesiynol, ymgysylltu gyda'u cynulleidfaoedd ac i weithio'n fwy effeithiol. Bydd y dydd hyfforddiant yma yn gymysgedd o gyflwyno, gwaith ymarferol a gwaith grŵp sy'n amgylchynu amrywiaeth o dechnolegau gwe newydd.

NEWYDD! Cyflwyniad i adrodd straeon mewn sefydliadau

Cynulleidfa darged: Rheolwyr a staff rheng flaen sy'n gobeithio defnyddio adrodd straeon i gysylltu â defnyddwyr gwasanaethau, dinasyddion a chymunedau.

Mae llawer o sefydliadau'n gweld mantais casglu straeon "go iawn" gan ddefnyddwyr gwasanaethau, staff a gwirfoddolwyr er mwyn helpu i wella cyflenwi gwasanaethau. Mae'r sesiwn hon yn archwilio'r amrywiol fethodolegau a ddefnyddir i gasglu a rhannu straeon ac mae'n cynnig rhai ymarferiadau ymarferol i'ch cael i feddwl am sut y gallech fynd ati i gasglu straeon yn eich gwaith.

7 Rhagfyr 2010
WCVA, y Rhyi
1 Mawrth 2011
Canolfan Plant
Integredig, Merthyr
Tudful
Y gost: A £125
B £155 C £185



Y gost: £50
aelodau WCVA,
£65 i rai nad ydynt yn
aelodau o WCVA

19 Hydref 2010,
14.00 – 16.30
Cyngor Cymru i Bobl
Fyddar, Pontypridd
16 Tachwedd,
10.00 – 12.30
Mantell Gwynedd,
Caernarfon

2 Tachwedd 2010,
10.00-12.30
WCVA, Aberystwyth
24 Mawrth 2011,
10.00 – 12.30
YMCA, Casnewydd



NEWYDD! Amser i bobl ifanc – gyda Timebanking Wales

Cynulleidfa darged: Sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc sy'n dymuno datblygu cyfleoedd Bancio Amser.

Mae bancio amser unigolyn i asiantaeth wedi dod yn ffynhonnell gydnabyddedig ac sydd â chrym dystiolaeth iddi yng Nghymru mewn ffrâm amser cymharol fyr. Mae'r Sefydliad Economeg Newydd yn "The New Wealth of Time: How Timebanking helps people build better public services" yn cyflwyno tystiolaeth bod bancio amser unigolyn i asiantaeth yn ddull cost effeithiol ac effeithiol iawn o ysgogi 'pobl fel adnodd ar gyfer cyd-gynhyrchu gwasanaethau'. Mae bancio amser wedi cael effaith aruthrol ar gysylltu pobl ifanc fel cyfranogwyr cadarnhaol i'w cymunedau mewn ardaloedd sy'n dioddef o lefelau uchel o ymddygiad gwrthymdeithasol a dadrithiad. Mae llawer o'r bobl ifanc hyn yn mynychu gwasanaethau ieuencntid yn oddefol, ond mae'n anodd eu cael i gysylltu'n weithgar. Mae'r sesiwn undydd hon yn amlinellu'r gwahanol fethodolegau ar gyfer gweithredu Amser i Bobl Ifanc yn ymarferol gan alluogi gwasanaethau ieuencntid i ymgysylltu â phobl ifanc yn effeithiol ac yn weithredol mewn patrymau ymddygiad cadarnhaol.

Cyfarwyddiadau archebu

• Archebwch ar-lein yn www.wcva.org.uk/training

• Llwythwch ffurflen archebu i lawr oddi ar:
www.participationcymru.org.uk/training

• Ffoniwch 0800 2888 329 neu help@wcva.org.uk

Bandiau pris:

A Aelodau WCVA **B** Mudiadau gwirfoddol a chymunedol **C** Sector cyhoeddus a phreifat. Nid oes yr un o'r prisiau hyn yn cynnwys TAW

Hyfforddiant mewnol wedi'i deilwra'n arbennig

Rydym hefyd yn cynnig gwasanaeth ymgynghori a hyfforddiant wedi'i deilwra'n arbennig ar gyfer cynllunio a chyflenwi'r hyfforddiant sy'n bodloni anghenion eich sefydliad ac anghenion unigolion. Rydym yn cynnig dull gweithredu byblyg sy'n rhoi sylw i bobeth o gyrtsiau cyflwyno, i gyrtsiau ar ddulliau a thechnegau penodol, drwdd i gynllunio a gwerthuso. Ymwelwch â'n gwefan am restr gyflawn o ddisgrifiadau o'r cyrsiau a chysylltwch â ni ar participationcymru@wcva.org.uk i drafod eich anghenion.

Seminarau ymarfer da (hanner diwrnod)

Mae ein seminarau arferion da yn gyfle i gael gwybodaeth a deallusrwydd, gyda phwyslais ar rannu arferion da.

Cyfryngau i gynllunio prosiect llwyddiannus i gysylltu â defnyddwyr gwasanaethau

Bydd y seminar hon yn cyflwyno awgrymiadau a chyfryngau ymarferol ar gyfer cynllunio a rheoli eich prosiect i gysylltu â defnyddwyr gwasanaethau, gan gynnwys cynllunio gweithredu, gwneud amserlenni, cynlluniau prosiect, siartiau Gantt, monitro cynnydd a gwneud adroddiadau.

Rhwydweithiau cynhyrchiol: sefydlu neu adfywio rhwydwaith

Maent yn dweud bod y cyflawn yn fwy na chyfanswm ei rannau... rydym yn gwybod y dylai pethau weithio'n well wrth i ni weithio gyda'n gilydd. Mae rhwydweithiau'n cynnig ffordd o weithio ar draws ffiniau sefydliadol, ond sut y mae greu rhwydwaith sy'n perfformio'n dda? Mae'r seminar hon yn archwilio sut i sefydlu rhwydwaith llwyddiannus, gyda syniadau ymarferol, awgrymiadau a dulliau ar gyfer sefydlu rhwydwaith newydd, ac ar gyfer adfywio ac ailosod ffocws i rwydwaith sy'n bodoli eisoes. Ceir awgrymiadau ar gyfer gweithio'n llwyddiannus mewn partneriaeth, sut i gytuno ar eich cyd-diben, eich cyd-nodau a'ch cyd-amcanion a sut i bennu cylch gorchwyl.

